Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Ronwen Rees**

**Caerfyrddin**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/09/2019

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Ronwen Myfina Maisie Rees, sy'n cael ei hadnabod fel Maisie, wedi bod yn warchodwr plant ers dros 35 o flynyddoedd ac mae wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ers 2002. Mae'n gweithredu o'i chartref yng Nghaerfyrddin. Mae'n darparu gofal ar gyfer hyd ar chwe phlentyn pan mae'n gweithio ar ei phen ei hun, a hyd at naw plentyn pan mae'n gweithio gyda'i chynorthwyydd, sef ei gŵr, Mr Clive Rees. Mae ar agor rhwng 7.30am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cymraeg yw iaith y gofal.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Digonol |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

1. **Asesiad cyffredinol**

   Mae'r plant yn derbyn gofal gan warchodwr plant caredig a thyner, sydd fel mam-gu iddynt. Mae'r plant wedi setlo'n dda ac wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Maent yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a chyfforddus sydd ag ardal fach ar gyfer chwarae yn yr awyr agored. Mae'r rhieni'n hapus iawn â gofal eu plant a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r dogfennau gofynnol ac yn rheoli'r gwasanaeth yn ddigonol.

2. **Gwelliannau**

   Dim

3. **Gofynion ac argymhellion**

   Gwnaethom rai argymhellion y gellir eu gweld ym mhwynt 5.2 ar ddiwedd yr adroddiad.

## 1. Llesiant — Da

### Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo'n dda ac yn amlwg yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Maent yn mwynhau profiadau chwarae a arweiniwyd ganddynt eu hunain. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn mynegi eu hunain mewn ffordd hyderus. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau'n gyson am eu gweithrediadau a'u gweithgareddau. Gwnaethant ddewis beth roeddent am chwarae a symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Er enghraifft, ar ôl cyrraedd, penderfynodd un plentyn gwblhau jig-so roedd wedi dod gydag ef. Canolbwyntiodd y plentyn am beth amser gan gwblhau'r jig-so sawl gwaith cyn symud o'r gegin i archwilio'r teganau yn yr ystafell fyw. Gofynnodd am gymorth yn hyderus pan roedd ei angen. Er enghraifft, pan roedd wedi bwyta'r rhan fwyaf o'i iogwrt, gofynnodd am gymorth gyda'r llwyaid olaf.

Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol a'r amgylchedd. Roeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i adnoddau ac yn mynd ar eu hôl yn annibynnol. Er enghraifft, tynnodd y plant drenau allan o focs yn yr ystafell fyw, a gwnaethant gysylltu cerbydau â'i gilydd yn hapus ac enwi'r anifeiliaid ar y trên cyn gwthio'r trên o gwmpas llawr yr ystafell fyw. Gwnaethant ganu'n fodlon i'w hunain wrth iddynt chwarae. Roedd y plant yn cyrraedd y gwasanaeth yn hapus ac yn ffarwelio â'u rhiant/gofalwr yn llawen. Roeddent yn gyffrous wrth ddangos y tŵr roeddent wedi ei adeiladu i'r gwarchodwr plant, ac roeddent yn wên o glust i glust wrth iddynt gael eu canmol. Gwnaethant sgwrsio'n hapus am y plant eraill a oedd yn mynychu'r gwasanaeth a pha deganau roeddent yn hoffi chwarae â nhw.

Ar y cyfan, roedd y plant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd ac yn rhannu adnoddau gyda'i gilydd ar ôl i'r gwarchodwr plant neu ei chynorthwyydd eu hysgogi. Maent yn datblygu cydberthnasau. Er enghraifft, roedd un plentyn yn llawn cyffro wrth i blentyn arall gyrraedd, a neidiodd i fyny ac i lawr, gan wenu o glust i glust ar ei ffrind. Gwnaeth plentyn arall daro braich ffrind yn ysgafn pan roedd wedi cwblhau jig-so. Gwnaeth y plant gydweithio a dosbarthu teganau i'w gilydd i adeiladu tŵr. Mae'r plant wedi setlo'n dda, a gwnaethant eistedd ar lin y gwarchodwr plant ar adegau amrywiol yn ystod ein hymweliad cyn dychwelyd i chwarae'n hapus.

Roedd y plant yn mwynhau dilyn eu diddordebau eu hunain a dewis eu gweithgareddau diddorol eu hunain. Roeddent yn mwynhau adeiladu tyrau a gwnaethant chwerthin yn uchel wrth i'r blociau gwympo. Gwnaethant ddefnyddio'r blociau yn llwyddiannus i greu deinasor a gwnaethant ddyfalbarhau â'u chwarae. Er enghraifft, gwnaethant gysylltu cerbydau trên â'i gilydd ac enwi'r anifeiliaid gwahanol. Pan ddaeth y cerbydau'n rhydd, gwnaethant ddweud "Uh oh" a dyfalbarhau i ail-gysylltu'r cerbydau sawl gwaith. Gwnaethant lenwi bocsys â blociau a'u cario i'r gegin i chwrae cyn ail-lenwi'r bocs a mynd allan i chwarae. Cwblhaodd un plentyn ifanc jig-so 40 darn heb unrhyw gymorth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau unigol a'u hannibyniaeth. Gwnaethant fwyta eu brecwast a'u cinio yn annibynnol gan ddefnyddio cyllyll a ffyrc bach. Gwnaeth y plant dacluso ar wahanol adegau yn ystod ein hymweliad heb gael eu hannog, a gwnaethant olchi a sychu eu dwylo yn annibynnol gyda'r gwarchodwr plant wrth law i gynnig cymorth pan oedd angen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad — Digonol

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn iach ac yn ddiogel ac mae'n rheoli ymddygiad yn gadarnhaol. Nid yw'n cynllunio gweithgareddau yn ffurfiol nac yn olrhain datblygiad y plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ddigonol o weithdrefnau amddiffyn plant ac roedd wedi cael hyfforddiant cyfredol. Rhoddodd amlinelliad digonol o'i hymateb pe bai ganddi unrhyw bryderon. Roedd cofnodion ar gael i ddangos tystiolaeth o ymarferion tân rheolaidd. Roedd ei hyfforddiant cymorth cyntaf yn gyfredol ac roedd wedi trefnu cael hyfforddiant hylendid bwyd. Roedd ganddi gyfarpar diogelwch ar waith fel amddiffynnydd tân o amgylch y lle tân. Roedd ardal awyr agored fach ar gael i'r plant. Gwnaeth y gwarchodwr plant baratoi cinio cig eidion a oedd yn cynnwys moron ac erfin stwmp, cig eidion, tatws stwmp a grefi i'r plant amser cinio. Bwytaodd y plant lond eu boliau.

Roedd y gwarchodwr plant yn dyner ac yn amyneddgar gyda'r plant. Rhoddodd ei holl sylw i'r plant pan oeddent yn siarad, a rhoddodd ddigon o amser iddynt gwblhau tasgau eu hunain. Roedd hi'n canmol y plant am fod yn garedig i'w gilydd ac am rannu, yn ogystal â phan oeddent yn cwblhau tasg. Er enghraifft, pan gwblhaodd plentyn jig-so, dywedodd, "Good boy. Pwy sydd yn glyfar?" Pan oedd y plant ychydig yn arw wrth dynnu jig-so ar led, gwnaeth y gwarchodwr plant eu hatgoffa'n dyner y byddai pawb yn drist petai'r jig-so yn torri. Ymatebodd y plant yn gadarnhaol a datgymalu'r jig-so yn ofalus.

Roedd y gwarchodwr plant yn ofalgar ac yn gariadus gyda'r plant yn ei gofal. Roedd yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad yn hyderus am eu hoff bethau a'u cas bethau. Casglodd wybodaeth mewn perthynas â chas bethau, ofnau, eitemau cysur a geiriau arbennig y plant cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth fel ei bod yn gallu diwallu eu hanghenion unigol. Dywedodd rhiant y gwnaethom siarad ag ef bod gadael ei blentyn gyda'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd fel gadael ei blentyn gyda'i fam-gu a'i dad-cu. Nid oedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnodion swyddogol o ddatblygiad y plant gan fod y rhan fwyaf o'r plant yn mynychu lleoliadau addysgol eraill neu gyda'r gwarchodwr plant am gyfnodau byr cyn neu ar ôl ysgol yn unig. Dywedodd rhiant wrthym ei fod am i'w blentyn brofi amgylchedd cartref a'i fod yn fodlon ar ddatblygiad ei blentyn. Roedd yn arbennig o falch bod ei blentyn yn bwyta bwyd iach yng nghartref y gwarchodwr plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd — Digonol

**Crynodeb**

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel, yn lân ac yn addas i'r plant. Mae'n defnyddio'r gegin a'r ystafell fyw i warchod y plant a gall y plant ddefnyddio ardal awyr agored fach.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnod o'r holl ymwelwyr yn ei dyddiadur. Roedd y safle yn lân, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Roedd y gwarchodwr plant wedi cynnal asesiadau risg ar ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a dywedodd wrthym ei bod yn cynnal gwiriadau gweledol yn ddyddiol; fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod ysgrifenedig. Roedd gwiriadau diogelwch ar waith; er enghraifft, gwasanaethu gwresogi blynyddol a gwiriadau larymau mwg rheolaidd.

Roedd digon o le a chyfleusterau ar y safle a gallai'r plant fynd i nôl teganau ac adnoddau'n hawdd o focsys. Roedd y teganau'n cynnwys set trenau, doliau, deinosoriaid, cerbydau, jig-so a blociau. Roedd y safle yn lân, yn gynnes ac yn groesawgar ac roedd y plant yn gallu ymlacio ar soffa gyfforddus. Roeddent yn gallu defnyddio ardal awyr agored caeedig fach lle roeddent yn chwarae ar deganau reidio, si-so, teganau gwthio a beiciau.

Roedd y teganau yn lân ac mewn cyflwr da. Yn yr ystafell fyw, roedd amrywiaeth o deganau a chyfarpar a oedd yn addas ar gyfer ystod oedran y plant a oedd yn cael gofal. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn cylchdroi'r teganau fel nad oedd y plant yn diflasu ar yr un teganau. Roedd y gwarchodwr plant yn glanhau'r teganau yn rheolaidd ac yn gosod adnoddau newydd yn lle'r rhai a oedd wedi torri yn ôl yr angen. Roedd grisiau i fynd at y toiled a'r sinc, yn ogystal â bygi a ddefnyddir i gludo'r plant i'r cylch chwarae ac yn ôl mewn cyflwr da.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli Digonol

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant ddigon o gofnodion sy'n cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol, fel polisïau craidd, gweithdrefnau a chofnodion y plant. Mae gan y gwarchodwr plant system sylfaenol i adolygu'r gwasanaeth a gynigir i deuluoedd. Mae ganddi bartneriaethau da â'r rhieni sy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae wedi mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn yr arolygiad diwethaf.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr holl gofnodion a dogfennau gofynnol ar gael. Roedd y gwarchodwr plant wedi cael yr holl ffurflenni angenrheidiol gan y rhieni, fel cofnodion gwybodaeth bersonol, contractau, a gofal meddygol brys. Roedd y gwarchodwr plant yn nodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau yn ei dyddiadur. Roedd gan y gwarchodwr plant ddigon o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y plant, fel amddiffyn plant a rheoli ymddygiad cadarnhaol. Roedd y datganiad o ddiben yn adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth a ddarperir. Roedd y gwarchodwr plant wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni i alluogi ei chynorthwyydd i hebrwng y plant i'r cylch chwarae a'r ysgol leol ac yn ôl. Roedd y gwarchodwr plant yn cydymffurfio â'i gofynion cofrestru ac yn cydymffurfio â'r cymarebau oedolion i blant cywir ar yr holl ddyddiadau y gwnaethom eu gwirio yn y dyddiadur.

Roedd y gwarchodwr plant yn rhoi holiaduron i'r rhieni yn flynyddol yn gofyn am adborth ar ei gwasanaeth. Roedd yr adborth gan y rhieni yn gadarnhaol iawn. Er enghraifft, roeddent yn fodlon ar y cyfnewid gwybodaeth a'r amrywiaeth o weithgareddau a gynigir. Nid yw'r gwarchodwr plant yn dosbarthu holiaduron i'r plant, ond dywedodd rhiant wrthym fod y plant yn fodlon ar y gweithgareddau ac yn mwynhau eu hamser gyda'r gwarchodwr plant. Roedd y gwarchodwr plant wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu, cymorth cyntaf pediatrig ac roedd wedi trefnu cael hyfforddiant hylendid bwyd. Roedd ganddi dystysgrif yswiriant cyhoeddus dilys. Roedd ganddi dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ogystal â'i chynorthwyydd.

Roedd gan y gwarchodwr plant gydberthynas waith cadarnhaol â'r rhieni. Dywedodd rhiant wrthym ei fod yn fodlon ar y gwasanaeth a bod y gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd fel mam-gu a thad-cu ychwanegol i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu gweithgareddau i'r plant fel ymweliadau gan Mr a Mrs Santa adeg y Nadolig. Dywedodd rhiant wrthym ei fod yn fodlon ar yr adborth dyddiol ar lafar ynglŷn ag amser ei blentyn gyda'r gwarchodwr plant. Cadarnhawyd hyn yn yr holiaduron i rieni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio ag Adran 29 (4) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;
Yn ystod yr arolygiad dirybudd, roedd y gwarchodwr plant yn gofalu am gyfanswm o 2 blentyn o dan 5 oed yn ei chartref, tra bod ei chynorthwyydd wedi casglu 7 plentyn o'r ysgol, ac roedd dau ohonynt o dan wyth oed. Mae amod cofrestriad y gwarchodwr plant yn nodi'r canlynol;

Ni chaiff y nifer uchaf o blant o dan wyth mlwydd oed y caniateir iddi ofalu amdanynt fod yn uwch na chwech (6), ac o fewn y nifer yna ni chaniateir mwy na thri (3) o blant rhwng 0 a 5 oed. Bydd y gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r grwpiau oedran a'r nifer uchaf o blant a ganiateir ar y safle ar unrhyw adeg benodol, fel y nodir yn Safon Ofynnol Genedlaethol 13.

Pan fydd yn gweithio ar y cyd â Clive Rees fel cynorthwy-ydd iddi, ni chaiff y nifer fod yn uwch na naw (9) o blant, ac o fewn y nifer yna ni chaniateir mwy na chwech (6) o blant rhwng 0 a 5 oed.

Nid oes unrhyw amodau ar waith er mwyn i Mr Rees ofalu am blant o dan wyth oed yn annibynnol.

Gwnaethom roi gwybod i'r gwarchodwr plant ei bod hi, yn unol â rheoliad 13.5 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig yn gyfrifol am waith y cynorthwyydd, ac yn ei oruchwylio.

Mae'r gwarchodwr plant bellach yn cydymffurfio â hynny.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y dylai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- ymestyn yr asesiad risg ar gyfer ei chartref,
- ceisio adborth gan y plant am ei gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd cyfnod byr o rybudd i'r gwarchodwr plant er mwyn cadarnhau ei bod ar gael.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 24 Medi 2019 am tua 4.5 awr.

Gwnaethom y canlynol;

- dadansoddi gwybodaeth a ddelir gan Arolygiaeth Gofal Cymru,
- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau,
- arsylwi ar arferion;
- cynnal arolygiad gweledol o'r safle;
- siarad â'r plant, y gwarchodwr plant, cynorthwyydd y gwarchodwr plant ac un rhiant.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Ronwen Myfina Maisie Rees** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **6** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **7.30am i 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **10 Chwefror 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **24 Medi 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/12/2019

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi